

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21

Ionawr 2020

Ar 16 Rhagfyr 2019, gosododd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft a'r argymhellion.

Tystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn manteisio ar dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor mewn sesiwn craffu ar y gyllideb ar 9 Ionawr 2020 gan:

- Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
- Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
- Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd
- Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
- Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp, yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Cydol Oes

Mae cyfran o'r gyllideb sy'n ymwneud â chylch gwaith sgiliau'r Pwyllgor yn rhan o bortffolio Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg. Er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o faich ar amser pwyllgorau a gweinidogion, roedd Cadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn fodlon y byddai Hefin David AC, sy'n aelod o'r ddau bwyllgor, yn gofyn cwestiynau yn ymwneud ag ymchwil ac arloesi, sy'n berthnasol i gylich gwaith y Pwyllgor hwn, yn sesiwn craffu ar y gyllideb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd yn y sesiwn honno a thystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.



Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi adran eglur yn y gyllideb hon a chyllidebau yn y dyfodol yn amlinellu'n fwy eglur sut y mae cyllideb yr economi a thrafnidiaeth yn cefnogi datgarboneiddio, gan gynnwys rhoi manylion y dyraniadau cyllideb penodol dan sylw. Tudalen 5

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dyraniadau cyllideb ar gyfer pob cynnig a pholisi yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel sy'n gysylltiedig â phortffolio Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Tudalen 5

Argymhelliad 3. Dylai'r Llywodraeth ddarparu rhagor o fanylion mwy eglur am gyllideb gorfforaethol Trafnidiaeth Cymru nawr, a sicrhau y darperir yr wybodaeth hon yng nghyllidebau'r dyfodol..... Tudalen 6

Argymhelliad 4. Wrth gyhoeddi'r achos busnes ar gyfer swyddogaeth Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y broses drosglwyddo ar gyfer cyfrifoldebau newydd, gan gynnwys: rhagfynegiad o'r dyddiadau pan fydd disgwyl i gyfrifoldebau unigol fod wedi eu trosglwyddo yn ystod 2020-21; sut y dewiswyd y cyfrifoldebau penodol a sut y bydd y trosglwyddo o fudd i Gymru; y cyllid ychwanegol y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ei dderbyn i reoli'r cyfrifoldebau hyn; a'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r cyllid ychwanegol hwnnw. Tudalen 6

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y cymorthdaliadau y mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi eu derbyn ac yn disgwyl eu derbyn, yn ystod oes y contract. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru, nid i'r Pwyllgor hwn yn unig. Tudalen 6

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o wybodaeth am y drefn rheoli perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys lefel y taliadau a'r cosbau a rhagor o fanylion am sut y bydd taliadau cosb yn cael eu hail-fuddsoddi. Yn yr un modd â gwybodaeth am gymorthdaliadau, dylai hyn fod ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru, nid i'r Pwyllgor hwn yn unig..... Tudalen 7

Argymhelliad 7. Er mwyn cynnig eglurder ynghylch cyfraniad cymharol llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru at gefnogi gwasanaethau bysiau, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau a chyhoeddi'r tabl a ddarparwyd yn ei Asesiad

Effaith Rheoleiddiol drafft gan gynnwys data ar gyfer 2018-19 - 2019-20 cyn gynted â phosibl. Dylid ychwanegu data ar gyfer 2020-21 cyn gynted ag y bydd data awdurdodau lleol ar gael. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r ffigurau hyn bob blwyddyn yn y dyfodol. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am sut a phryd y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn flynyddol.....Tudalen 8

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion am drafodaethau traws-lywodraeth ynghylch buddsoddiad mewn newid ymddygiad ar gyfer teithio llesol, a manylion lefel y buddsoddiad mewn rhaglenni newid ymddygiad gan adrannau eraill ar gyfer 2020-21.

.....Tudalen 8

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw cyllidebau cyfalaf adrannau eraill yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol wrth fuddsoddi mewn prosiectau fel ysgolion ac ysbytai.Tudalen 9

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyngor a gafwyd cyn cyflwyno'r benthyciad diweddaraf i Faes Awyr Caerdydd, ac os nad yw hyn yn bosibl dylai ddarparu crynodeb o'i chasgliadau a manylion y cwmni neu'r unigolyn a ddarparodd y cyngorTudalen 10

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r manylion diweddaraf am ei sail ymchwil a thystiolaeth ar gyfer effaith economaidd ehangach y maes awyr

.....Tudalen 10

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan yn gyhoeddus a yw'r maes awyr yn cael ei redeg yn fasnachol, gan ddisgwyl y byddai'n cynhyrchu elw yn y pen draw, neu a yw'n cael ei gefnogi fel ased seilwaith er budd economi Cymru.

.....Tudalen 10

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth i gefnogi ei safbwynt mai perchnogaeth gyhoeddus ar feysydd awyr yw'r arfer rhyngwladol safonol, gan gynnwys sail y datganiad mai dim ond 14 y cant o feysydd awyr sydd â buddiant sector preifat ynddynt.Tudalen 10

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dull o ddsbarthu cyllid ar gyfer prentisiaethau yn y flwyddyn academaidd 2020/21 gan gynnwys esboniad o'r dull cyffredinol, yr holl fecanweithiau ac eithriadau rheoli galw, a sut y bydd y model yn ymateb i bwyntiau galw uchel.Tudalen 10

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu swm interim, cymedrol, o gyllid i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng nghyllideb derfynol 2020-21 i'w caniatáu i gomisiynu ychydig o ymchwil trwyadl i wella eu gallu dadansoddi.

.....Tudalen 11

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion sut y defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd ganddi i Airbus a'r sector modurol yng nghyllideb flaenorol 2019-20. Dylai hyn gynnwys unrhyw dargedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru nodi hefyd, yn fanwl, ar ba delerau y bydd cyllid ychwanegol newydd 2020-21 yn cael ei ddosbarthu, y mecanweithiau sydd ar waith i fonitro ei ddefnydd, a'r enillion a ddisgwylir o'r buddsoddiad.....Tudalen 12

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu copi o'r dadansoddiad o'r cyfraniad y mae cyllid yr UE yn ei wneud at y rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd yr esboniodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi eu cynnal. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu i'r Pwyllgor gopïau o'r cynlluniau a'r rhagdybiaethau cynllunio y mae'n dweud ei bod wedi eu drafftio i fynd i'r afael â chyllid sgiliau ar ôl Brexit.

.....Tudalen 12

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol, sut y mae wedi rhoi cydraddoldeb o ran rhyw yn ganolog i fuddsoddiad a pholisi cyflogaeth a sgiliau y flwyddyn nesaf; a sut y mae'n defnyddio'r gyllideb sgiliau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chefnogi cynnydd menywod yn y gweithle..... Tudalen 13

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am ei dull cyllidebu ar sail rhyw o ran ei rhaglen dreialu ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol..... Tudalen 13

Argymhelliad 20. Gan na fydd argymhellion adolygiad Reid yn cael eu gweithredu'n llawn cyn i'r DU adael yr UE mwyach, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynlluniau amgen ar gyfer disodli cyllid ymchwil ac arloesi yr UE ar ôl Brexit..... Tudalen 14

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cwantwm cyfan y cyllid ymchwil a datblygu y mae'n ei ddarparu a'i wario, wedi'i ddadansoddi yn ôl meysydd gwariant a'r cyrff y mae'n cael ei ddosbarthu iddynt neu ei wario ganddynt..... Tudalen 14

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r dirwedd ymchwil ac arloesi gyfan yng Nghymru gan gynnwys gweithgareddau a ariennir

yn gyhoeddus ac yn breifat. Dylai'r adolygiad hwn ganiatáu i'r Llywodraeth gael dealltwriaeth lawn o'i gwariant ymchwil ac arloesi, gan gynnwys gwella effeithiolrwydd y gwariant hwnnw. Byddai adolygiad o'r fath hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer strategaeth ymchwil ac arloesi draws-lywodraeth i gydlynu polisi ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru a chyllid o amgylch ei nodau ffyniant.

..... Tudalen 14

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor fanylion unrhyw ddyraniadau penodol yn y gyllideb a fydd yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r diwydiant dur..... Tudalen 15

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymaint o fanylion â phosibl i'r pwyllgor am yr ymgynghorwyr allanol y mae wedi'u comisiynu i weithio ar y fethodoleg ar gyfer y cyllidebau rhanbarthol dangosol (gan gynnwys, pwy ydyn nhw, pa allbynnau a ddisgwylir, yr hyn y maent yn canolbwyntio arno a pha ddull y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu gwaith dadansoddi)..... Tudalen 15

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymaint o fanylion â phosibl i'r Pwyllgor am waith arbenigwyr y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sy'n edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru fesur llwyddiant y Cynllun Gweithredu Economaidd..... Tudalen 16

Datgarboneiddio

1. Mae Cynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel yn nodi targed o ostyngiad o 14% i allyriadau trafndiaeth erbyn 2020, a gostyngiad o 43% erbyn 2030, o lefel 1990. Atgyfnerthir y pwyslais ar ddatgarboneiddio trafndiaeth yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Ilif prosiectau y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn 2019, sy'n nodi bod "datgarboneiddio yn ganolog i'r penderfyniadau am ddatblygiadau seilwaith." Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ar 29 Ebrill 2019 hefyd.

2. Er gwaethaf yr ymrwymiad eglur hwn i ddatgarboneiddio, nid yw'r gyllideb ddrafft yn ei gwneud yn eglur faint o arian sy'n cael ei neilltuo i ddatgarboneiddio trafndiaeth, ac nid yw'n cynnwys eglurder ychwaith ynghylch y dyraniadau cyllid i gefnogi'r polisiau a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel.

3. Yn sgil yr argyfwng hinsawdd a ddatganwyd, a'r rhan y mae trafndiaeth yn ei chwarae o ran cynhyrchu allyriadau carbon, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n briodol cynnwys adran eglur y gellir dod o hyd iddi yn rhwydd yn y gyllideb hon ac ym mhob cyllideb yn y dyfodol, yn amlinellu dyraniadau datgarboneiddio. Byddai

hyn yn helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall yn union faint sy'n cael ei wario ar ddatgarboneiddio, a'r Pwyllgor i ddwyn Gweinidogion i gyfrif.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi adran eglur yn y gyllideb hon a chyllidebau yn y dyfodol yn amlinellu'n fwy eglur sut y mae cyllideb yr economi a thrafnidiaeth yn cefnogi datgarboneiddio, gan gynnwys rhoi manylion y dyraniadau cyllideb penodol dan sylw.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dyraniadau cyllideb ar gyfer pob cynnig a pholisi yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel sy'n gysylltiedig â phortffolio Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth.

Trafnidiaeth

Trafnidiaeth Cymru a Rheilffyrdd

- 4.** Mae papur Llywodraeth Cymru yn nodi bod gan Trafnidiaeth Cymru "hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn a sefydledig. Mae rhaniad clir rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, sy'n caniatáu i Trafnidiaeth Cymru wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol."
- 5.** Mae gan y Pwyllgor bryderon parhaus ynghylch tryloywder Trafnidiaeth Cymru. Gan fod Trafnidiaeth Cymru yn eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei ariannu trwy gyllideb Cymru, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i drafodion rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, a gwaith mewnol Trafnidiaeth Cymru ei hun, fod mor dryloyw â phosibl.
- 6.** Mae'r gyllideb gorfforaethol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn anhryloyw yn y fformat y mae'r gyllideb yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd, ac felly hefyd y cymhorthdal a delir i Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Pwyllgor o'r farn, o ystyried pwysigrwydd Trafnidiaeth Cymru a'r angen i graffu ar ei swyddogaeth, y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyllideb Trafnidiaeth Cymru, a chyllideb Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, mewn ffordd lawer fwy eglur.
- 7.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn cyhoeddi gwybodaeth am gymorthdaliadau rheilffyrdd, ond nid yw'r wybodaeth bob amser yn cael ei dadansoddi yn ôl pa lywodraeth sydd wedi darparu pa gymhorthdal. Hefyd mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r dinesydd cyffredin o Gymru yn disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

8. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i gyhoeddi yn y gwanwyn yr achos busnes hir-ddisgwyliedig ar ddatblygiad Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn deall y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol pan fydd bwrdd Trafnidiaeth Cymru o'r farn bod y sefydliad yn barod, nid yw'r broses a ddilynir i wneud penderfyniadau a throsglwyddo cyfrifoldebau yn ddigon eglur.

9. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn clywed gan y Gweinidog y cyflwynwyd hysbysiadau cynllun perfformiad i KeolisAmey a bod llif gwaith o ddim llai nag 11 rhaglen ar y gweill ac wedi'i gychwyn, a bod tua £2.3 miliwn o hysbysiadau cosb wedi'u cyflwyno i KeolisAmey. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r arian hwn yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheilffyrdd.

10. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhagor o fanylion am y cosbau hyn, yn enwedig am sut y cânt eu cyfrifo, pam maen nhw'n cael eu cyflwyno a sut y bydd yr arian yn cael ei ail-fuddsoddi. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn berchen yn llwyr ar Trafnidiaeth Cymru ac yn rheoli masnachfaint Cymru a'r Gororau a ddarperir gan KeolisAmey a'r ddau yn gweithredu o dan yr un brand. O ystyried y berthynas gymhleth hon rhwng y sector cyhoeddus a chwmni preifat, mae'n arbennig o bwysig i'r Aelodau a'r cyhoedd ddeall yn llawn sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i wella trafniadaeth yng Nghymru.

Argymhelliad 3. Dylai'r Llywodraeth ddarparu rhagor o fanylion mwy eglur am gyllideb gorfforaethol Trafnidiaeth Cymru nawr, a sicrhau y darperir yr wybodaeth hon yng nghyllidebau'r dyfodol.

Argymhelliad 4. Wrth gyhoeddi'r achos busnes ar gyfer swyddogaeth Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y broses drosglwyddo ar gyfer cyfrifoldebau newydd, gan gynnwys: rhagfynegiad o'r dyddiadau pan fydd disgwyl i gyfrifoldebau unigol fod wedi eu trosglwyddo yn ystod 2020-21; sut y dewiswyd y cyfrifoldebau penodol a sut y bydd y trosglwyddo o fudd i Gymru; y cyllid ychwanegol y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ei dderbyn i reoli'r cyfrifoldebau hyn; a'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r cyllid ychwanegol hwnnw.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y cymorthdaliadau y mae Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi eu derbyn ac yn disgwyl eu derbyn, yn ystod oes y contract. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru, nid i'r Pwyllgor hwn yn unig.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o wybodaeth am y drefn rheoli perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys lefel y taliadau a'r cosbau a rhagor o fanylion am sut y bydd taliadau cosb yn cael eu hail-fuddsoddi. Yn yr un modd â gwybodaeth am gymorthdaliadau, dylai hyn fod ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru, nid i'r Pwyllgor hwn yn unig.

Cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru

11. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer eu Papur Gwyn Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £116 miliwn ar gyfer cymorth bysiau cyhoeddus yn 2017/18. Mae'r aseiad yn nodi bod y cyllid hwn "yn cynnwys grantiau ar gyfer gwasanaeth bysiau TrawsCymru, sicrhau gwasanaethau bysiau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol na fyddai fel arall yn cael eu darparu, cefnogi cwmnïau bysiau i gyflawni Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru, cyfrannu at gostau'r cynllun prisiau siwrneiau consesiynol (gan gynnwys cyfran o'r costau ad-dalu a'r costau gweinyddol i awdurdodau lleol) a chostau eraill."

12. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys tabl sy'n rhestru gwariant sector cyhoeddus ar fysiau, gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn erbyn gwahanol ffrydiau cyllido. Mae ffigur 2017/18 Llywodraeth Cymru ar gyfer 'cymorth uniongyrchol' wedi'i neilltuo yn y tabl hwnnw yn dod i gyfanswm o £88 miliwn. Pan ofynnwyd iddo am y cyllid ar gyfer 2020/21, nododd y Gweinidog mai £94.138 miliwn yw'r ffigur ar gyfer 2020/21, y ffigur wedi'i neilltuo ar gyfer 2020/21, gan y Llywodraeth, o'i gymharu â'r ffigur o £88 miliwn ar gyfer 2017/18. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd hwn mewn cyllid.

13. Mae'r tabl hefyd yn cynnig data ar lefel cymorth awdurdodau lleol i wasanaethau bysiau o'u cyllidebau eu hunain. Mae'n cynnwys manylion eu gwariant ychwanegol ar docynnau rhatach a gwariant dewisol o'r Grant Cymorth Refeniw heb ei neilltuo. Nodwyd mewn datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru o 14 Mehefin 2019 "Dros y blynyddoedd diwethaf...mae nifer bach ond arwyddocaol o gynghorau wedi lleihau neu waredu'n llwyr o'u cyllidebau gyllid ar gyfer cefnogi gwasanaethau bws a thrafnidiaeth gymunedol" a bod y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn cael ei ddefnyddio i ddisodli'r cyllid hwn i bob pwrpas.

14. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am benderfyniad rhai awdurdodau lleol i roi'r gorau i ariannu bysiau, gan ddibynnu yn hytrach ar Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Simon Jones bod Trafnidiaeth Cymru yn

gwneud gwaith i ailgynllunio'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn ystod y flwyddyn i ddod.

15. Er mwyn deall yn llawn effaith penderfyniadau awdurdodau lleol ar ariannu trafndiaeth bysiau ac i fod mewn sefyllfa i asesu llwyddiant ailgynllunio Trafndiaeth Cymru, bydd angen i'r Pwyllgor gael mynediad rheolaidd at y ffigurau ar gyfraniad awdurdodau lleol at gefnogi cyllid bysiau.

Argymhelliad 7. Er mwyn cynnig eglurder ynghylch cyfraniad cymharol llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru at gefnogi gwasanaethau bysiau, dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau a chyhoeddi'r tabl a ddarparwyd yn ei Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft gan gynnwys data ar gyfer 2018-19 - 2019-20 cyn gynted â phosibl. Dylid ychwanegu data ar gyfer 2020-21 cyn gynted ag y bydd data awdurdodau lleol ar gael. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r ffigurau hyn bob blwyddyn yn y dyfodol. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am sut a phryd y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn flynyddol.

Teithio Llesol

16. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i brif ffrydio buddsoddiad mewn teithio llesol a'r manteision eang a ddaw yn sgil hyn. I'r perwyl hwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog mai'r peth pwysig am yr agenda teithio llesol yw ei hystyried yn rhan arferol o drafndiaeth, felly, dylai fod yn rhan o'r gyllideb drafndiaeth. Felly, dylai seilwaith teithio llesol gael ei ariannu gan ei adran ef.

17. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud mai'r hyn y dylai adrannau eraill fod yn ei wneud yw ariannu pethau ychwanegol fel y newid ymddygiad.

18. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull hwn o ariannu seilwaith teithio llesol a byddai ganddo ddiddordeb mewn cael rhagor o fanylion. Yn benodol, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod a yw prosiectau cyfalaf o adrannau eraill yn cefnogi seilwaith teithio llesol, ac os felly, sut. Er enghraifft, a yw ysgolion a adeiladwyd o dan gyllidebau rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cynnwys seilwaith teithio llesol ar ffurf llwybrau a chyfleusterau ar y safle, neu'n ariannu buddsoddiad mewn buddsoddiad priffyrdd cysylltiedig fel cyffyrdd a ffyrdd mynediad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i ddeall lefelau'r buddsoddiad sy'n cael eu gwneud mewn newid ymddygiad ar draws y Llywodraeth.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion am drafodaethau traws-lywodraeth ynghylch buddsoddiad

mewn newid ymddygiad ar gyfer teithio llesol, a manylion lefel y buddsoddiad mewn rhaglenni newid ymddygiad gan adrannau eraill ar gyfer 2020-21.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw cyllidebau cyfalaf adrannau eraill yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol wrth fuddsoddi mewn prosiectau fel ysgolion ac ysbytai.

Maes Awyr Caerdydd

19. Yn ddiweddar, cytunodd Llywodraeth Cymru ar fenthyciad newydd o £21 miliwn i Faes Awyr Caerdydd. Cyhoeddwyd y benthyciad hwn ar ben benthyciad presennol o £38 miliwn y mae'r maes awyr eisoes wedi'i sicrhau. Archwiliodd y Pwyllgor gyda'r Gweinidog y sail y gwnaed y benthyciadau arni a'r disgwyliadau ynghylch ad-dalu. Dywedodd Simon Jones o Lywodraeth Cymru y rhoddwyd cyngor ar y benthyciad iddynt gan gynghorydd proffesiynol trydydd parti allanol, â phrofiad penodol yn y sector cymorth gwladwriaethol yn edrych ar feysydd awyr.

20. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ysgrifennu at y Pwyllgor i amlinellu pryd y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i ad-daliadau'r benthyciadau hyn ddechrau, ac i roi rhagor o fanylion am y cyngor a dderbyniwyd gan y Llywodraeth cyn cyhoeddi'r benthyciad diweddaraf.

21. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb hefyd mewn pryd, neu a fyddai'r maes awyr yn gwneud elw. Nododd y Gweinidog fod meysydd awyr yn gyffredinol, yn fyd-eang, yn cael eu prisio ar sail eu EBITDA (Enillion Cyn Llog, Dibrisiant ac Amorteiddiad Trethi), ond nododd y Pwyllgor mai dim ond un mesur o berfformiad ariannol yw'r data EBITDA hyn.

22. Roedd y Gweinidog yn awyddus i dynnu sylw at y manteision economaidd ehangach y mae'r maes awyr yn eu cynnig, gan ddweud er efallai y bydd pobl yn edrych ar y ffigurau llai hyn yn ymwneud ag elw neu golled, mewn gwirionedd, mae'r cyfraniad at yr economi yn sylweddol dros ben-mae'n gyfystyr â channoedd o filiynau o bunnoedd. Dywedodd hefyd y byddai unrhyw un eisiau gweld unrhyw fath o seilwaith a chyfleusterau trafniadaeth yn gwneud elw, ond bod yn rhaid i bobl dderbyn na fydd yn gwneud elw bob amser os oes ganddo fudd cymdeithasol ehangach.

23. Amlygodd y Gweinidog hefyd mai perchnogaeth gyhoeddus o feysydd awyr oedd yr arfer rhyngwladol safonol gan ddweud drwy ystyried y mater yng nghydestun byd-eang, bod 86 y cant o feysydd awyr yn nwylo'r cyhoedd; dim ond 14 y cant o feysydd awyr sydd â buddiant sector preifat ynddynt.

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r newid pwyslais ymddangosiadol hwn o'r maes awyr yn gwneud elw i'w swyddogaeth yn cefnogi economi Cymru ac mae'n awyddus i glywed rhagor o fanylion am sut y mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif y manteision y mae'n eu cynnig.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r cyngor a gafwyd cyn cyflwyno'r benthyciad diweddaraf i Faes Awyr Caerdydd, ac os nad yw hyn yn bosibl dylai ddarparu crynodeb o'i chasgliadau a manylion y cwmni neu'r unigolyn a ddarparodd y cyngor

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r manylion diweddaraf am ei sail ymchwil a thystiolaeth ar gyfer effaith economaidd ehangach y maes awyr.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan yn gyhoeddus a yw'r maes awyr yn cael ei redeg yn fasnachol, gan ddisgwyl y byddai'n cynhyrchu elw yn y pen draw, neu a yw'n cael ei gefnogi fel ased seilwaith er budd economi Cymru.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth i gefnogi ei safbwynt mai perchnogaeth gyhoeddus ar feysydd awyr yw'r arfer rhyngwladol safonol, gan gynnwys sail y datganiad mai dim ond 14 y cant o feysydd awyr sydd â buddiant sector preifat ynddynt.

Sgiliau

Prentisiaethau

25. Pan ofynnwyd iddo am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prentisiaethau, ac yn benodol yr arfer o gadw rhywfaint o'r gyllideb prentisiaethau yn ôl i'w thargedu at feysydd galw uchel a nodwyd gan bartneriaethau sgiliau rhanbarthol dywedodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth eu bod nhw'n symud oddi wrth hynny erbyn hyn, er y byddant yn gosod targedau ar gyfer darparwyr hyfforddiant. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn y newid polisi hwn a hoffai edrych ar y dull newydd o ddosbarthu bron i £100 miliwn o arian cyhoeddus.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei dull o ddosbarthu cyllid ar gyfer prentisiaethau yn y flwyddyn academaidd 2020/21 gan gynnwys esboniad o'r dull cyffredinol, yr holl fecanweithiau ac eithriadau rheoli galw, a sut y bydd y model yn ymateb i bwyntiau galw uchel.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

26. Ailadroddodd y Gweinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ystod 2020-21 a nododd er na fyddai eisiau rhagfarnu casgliadau unrhyw adolygiad, ei fod yn credu ei bod yn deg dweud y bydd angen cynyddu cyllidebau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod yn rhaid gwella gallu ymchwil a dadansoddi data'r partneriaethau, yn unol â chanfyddiadau adolygiad diweddar y Pwyllgor o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

27. Ar hyn o bryd, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gwneud argymhellion sy'n dylanwadu ar gwricwla colegau ac yn gosod paramedrau ar gyfer adfachu cyllid, heb fod gan randdeiliaid ffydd lwyr yn y data y mae'r argymhellion wedi eu seilio arnynt.

28. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai cynnig swm cymedrol o arian i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gomisiynu gwaith ymchwil gan arwain at well data yn ystod y flwyddyn gyllideb hon yn gam nesaf da yn nhaith y partneriaethau i aeddfedrwydd. Byddai swm mor gymedrol yn galluogi'r partneriaethau i ddatblygu eu rhwydweithiau ymchwil a'u harbenigedd wrth gomisiynu ymchwil cyn yr adolygiad sydd ar fin cael ei gynnal, gan ddechrau mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r pryderon a rennir ynghylch neilltuo adnoddau annigonol i'w gallu ymchwil.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu swm interim, cymedrol, o gyllid i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng nghyllideb derfynol 2020-21 i'w caniatáu i gomisiynu ychydig o ymchwil trwyadl i wella eu gallu dadansoddi.

Airbus a gweithgynhyrchwyr modurol

29. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog yn cynnwys llinell cyllid ar gyfer sgiliau o'r enw "Airbus a gweithgynhyrchwyr modurol sy'n rhanbarthol bwysig." Dywedodd y Gweinidog fod yr arian hwn wedi ei ddefnyddio i baratoi'r busnes ar gyfer y dyfodol i sicrhau eu bod yn hyfforddi mewn meysydd fel deallusrwydd artifisial a roboteg ac yn y blaen, a'u bod wedi cael gwahoddiad i orhyfforddi ar gyfer y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

30. Dywedodd y Gweinidog eu bod wedi bod yn recriwtio ar gyfradd o oddeutu 100 yn fwy y flwyddyn er mwyn rhoi hwb i ragolygon eu busnes yn y dyfodol ond hefyd i gynorthwyo'r gadwyn gyflenwi. Can fod y taliadau hyn yn cael eu gwneud i gwmnïau mawr yn y sector preifat, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen eglurder

ynghylch sut y mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio a pha fuddion y mae Cymru yn eu cael o'r gwariant.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion sut y defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd ganddi i Airbus a'r sector modurol yng nghyllideb flaenorol 2019-20. Dylai hyn gynnwys unrhyw dargedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru nodi hefyd, yn fanwl, ar ba delerau y bydd cyllid ychwanegol newydd 2020-21 yn cael ei ddsbarthu, y mecanweithiau sydd ar waith i fonitro ei ddefnydd, a'r enillion a ddisgwylir o'r buddsoddiad.

Cyllid yr UE

31. Mae cyllideb Sgiliau Cymru yn derbyn cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Huw Morris, o Lywodraeth Cymru ei fod yn darparu 14 y cant i 20 y cant o'r cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaeth mewn blwyddyn arferol, felly maent yn ymwybodol iawn o'r hyn y bydd hynny'n ei wneud i ddarpariaeth ar ôl 2023, gan fod cyfnod lleihau'n raddol yn y cynllun pontio presennol.

32. Roedd yr aelodau'n pryderu ynglŷn â sut y bydd Brexit yn effeithio ar y gyllideb sgiliau ac roedd ganddynt ddi-ddordeb mewn clywed pa baratoadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud. Dywedodd Mr Morris wrth y Pwyllgor eu bod nhw wedi cynnull grŵp dros y tair blynedd diwethaf sy'n dod â'r holl randdeiliaid allweddol at ei gilydd a bod llawer o waith dadansoddi wedi ei wneud ar y mater.

33. Dywedodd Mr Morris fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r hyn y bydd hynny'n ei wneud i ddarpariaeth ar ôl 2023, gan fod cyfnod lleihau yn raddol yn y cynllun pontio presennol ac y byddai Brexit heb gytundeb yn destun pryder. Dywedodd hefyd fod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau wrth gefn ond mai'r hyn yr oedd yn llai hyderus yn ei gylch yw maint y cyllid y gallent ei dderbyn gan Lywodraeth y DU i ddisodli arian yr UE a ddarparwyd yn flaenorol.

34. Hoffai'r aelodau gael mwy o eglurder ynghylch y cynllunio a wnaed a blaengynlluniau ar gyfer colli cyllid yr UE i'r gyllideb sgiliau a chyflogadwyedd.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu copi o'r dadansoddiad o'r cyfraniad y mae cyllid yr UE yn ei wneud at y rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd yr esboniodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi eu cynnal. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu i'r Pwyllgor gopïau o'r cynlluniau a'r rhagdybiaethau cynllunio y mae'n dweud ei bod wedi eu drafftio i fynd i'r afael â chyllid sgiliau ar ôl Brexit.

Cyllidebu ar sail rhyw

35. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod eisiau bod yn 'llywodraeth ffeministaidd' sy'n cynnwys rhywedd yn y broses o wneud penderfyniadau 'mewn ffordd flaenllaw'. Un o'r egwyddorion a gytunwyd ar gyfer cyflawni hyn yw rhoi "safbwynt rhywedd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau a'r gyllideb". Mae sgiliau a hyfforddiant yn chwarae rhan bwysig o ran cynorthwyo menywod i symud ymlaen yn y gweithle ac i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Hoffai'r Pwyllgor weld sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag at ei huchelgais o fod yn llywodraeth ffeministaidd yn ymarferol o ran cyllid sgiliau, yn enwedig o ystyried y materion adnabyddus yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar gyrsiau penodol fel peirianeg.

36. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd o ddarllen yn naratif y gyllideb y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â dull cyllidebu ar sail rhyw yn rhan o'r rhaglen dreialu ar gyfer y Cyfrifon Dysgu Personol dwy flynedd.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol, sut y mae wedi rhoi cydraddoldeb o ran rhyw yn ganolog i fuddsoddiad a pholisi cyflogaeth a sgiliau y flwyddyn nesaf; a sut y mae'n defnyddio'r gyllideb sgiliau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chefnogi cynnydd menywod yn y gweithle.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am ei dull cyllidebu ar sail rhyw o ran ei rhaglen dreialu ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol.

Ymchwil ac Arloesi

37. Mae'n hysbys bod ymchwil ac arloesi yn hanfodol i gynyddu cynhyrchiant ac felly'n hanfodol i gyflawni nodau ffyniant Llywodraeth Cymru.

38. Bydd Cymru'n gadael yr UE nawr heb iddi weithredu'n arwyddocaol argymhellion a wnaed gan yr Athro Graeme Reid. Bwriadwyd i'r argymhellion baratoi'r sector addysg uwch ar gyfer disodli cyllid ymchwil a datblygu'r UE, yn ogystal â gwella cystadleurwydd prifysgolion Cymru o ran ennill cyllid allanol.

39. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall pam, er gwaethaf y ffaith bod y Gweinidog Addysg wedi ailadrodd safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod wedi derbyn argymhellion adolygiad Reid mewn egwyddor, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi dadflaenoriaethu argymhellion ymchwil ac arloesi Graeme Reid sydd â chysylltiad mor gryf â sicrhau ffyniant i bawb. Yn yr un modd

â'r gyllideb sgiliau, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynglŷn â pharatoadau ar gyfer disodli cyllid yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesi yn y sector addysg uwch.

40. Mae cyllid a gweithgareddau ymchwil a datblygu Llywodraeth Cymru yn dameidiog ac wedi eu rhannu ymysg sawl portffolio Gweinidogol. Dywedodd y Gweinidog Addysg ei bod yn eithaf anodd cyfrifo beth yn union yw'r cwantwm gan fod cymaint o wahanol gronfeydd lle mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian ymchwil ac arloesi ac yn cynorthwyo gwaith ymchwil ac arloesi, ac ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn mewn amryw o wahanol ffyrdd, bron yn Fysantaidd yn eu cymhlethdod gan gydnabod bod hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo.

41. Gan fod gwariant ar ymchwil ac arloesi yn hanfodol i dwf economaidd, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynglŷn â'r dull tameidiog hwn o ariannu gwaith ymchwil a datblygu, ac mae'n hynod bryderus wedyn na all Llywodraeth Cymru feddu'n ymarferol ar bolisi ymchwil ac arloesi traws-Llywodraethol cydlynol pan nad yw'n hysbys faint yn union o arian y mae'n ei wario ar ymchwil ac arloesi a lle mae'r gwariant hwnnw'n cael ei wneud.

Argymhelliad 20. Gan na fydd argymhellion adolygiad Reid yn cael eu gweithredu'n llawn cyn i'r DU adael yr UE mwyach, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynlluniau amgen ar gyfer disodli cyllid ymchwil ac arloesi yr UE ar ôl Brexit.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cwantwm cyfan y cyllid ymchwil a datblygu y mae'n ei ddarparu a'i wario, wedi'i ddadansoddi yn ôl meysydd gwariant a'r cyrff y mae'n cael ei ddosbarthu iddynt neu ei wario ganddynt.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r dirwedd ymchwil ac arloesi gyfan yng Nghymru gan gynnwys gweithgareddau a ariennir yn gyhoeddus ac yn breifat. Dylai'r adolygiad hwn ganiatáu i'r Llywodraeth gael dealltwriaeth lawn o'i gwariant ymchwil ac arloesi, gan gynnwys gwella effeithiolrwydd y gwariant hwnnw. Byddai adolygiad o'r fath hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer strategaeth ymchwil ac arloesi draws-lywodraeth i gydlynu polisi ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru a chyllid o amgylch ei nodau ffyniant.

Twf Economaidd a Datblygu Rhanbarthol

Y Diwydiant Dur

42. Mae'r Diwydiant Dur yn dal i fod mewn sefyllfa fregus, a amlygwyd gan gyhoeddiad Liberty Steel, ar ddiwrnod sesiwn craffu ar y gyllideb Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, y byddai'n dileu swyddi yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod honiad Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth bod problemau byd-eang, problemau cenedlaethol, problemau Ewropeaidd, ac yna problemau lleol ac mae'n deall nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddatrys yr holl broblemau hyn. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor o'r farn bod y gyllideb ddrafft yn aneglur ynghylch yn union pa ysgogiadau ariannol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gynorthwyo pobl sy'n dibynnu ar y diwydiant dur am eu bywoliaeth.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor fanylion unrhyw ddyraniadau penodol yn y gyllideb a fydd yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r diwydiant dur.

Cyllidebau Rhanbarthol

43. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yng nghynnydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a'r Cyllidebau Dangosol Rhanbarthol ac mae'n edrych ymlaen at eu cyhoeddiad ym mis Mawrth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o wybodaeth am brosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol a'r cyfleoedd buddsoddi mawr yn y tri rhanbarth.

44. Dywedodd y Gweinidog, oherwydd bod y gwaith yn ddigynsail, fod gan Lywodraeth Cymru ymgynghorwyr allanol yn gweithio ar y fethodoleg, y fformiwla ar gyfer pob un o'r cyllidebau rhanbarthol. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn y newyddion hyn a hoffai fwy o wybodaeth am yr ymgynghorwyr a'u gwaith.

45. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd o glywed bod y Gweinidog wedi cyflogi arbenigedd yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i wneud gwaith yn edrych yn benodol ar sut y gallwn fesur llwyddiant a byddai'n awyddus i wybod pryd y gallant ddisgwyl i'r gwaith hwn gael ei gyflawni a phryd y gallai weld y canlyniadau.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymaint o fanylion â phosibl i'r pwyllgor am yr ymgynghorwyr allanol y mae wedi'u comisiynu i weithio ar y fethodoleg ar gyfer y cyllidebau rhanbarthol dangosol (gan gynnwys, pwy ydyn

nhw, pa allbynnau a ddisgwylir, yr hyn y maent yn canolbwyntio arno a pha ddull y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu gwaith dadansoddi).

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymaint o fanylion â phosibl i'r Pwyllgor am waith arbenigwyr y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sy'n edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru fesur llwyddiant y Cynllun Gweithredu Economaidd.